**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ymchwiliad Craffu – Yr Amgylchedd Naturiol

**Ystafell Bwyllgor 1 - Canolfan Ddinesig, Abertawe**

**Dydd Llun, 18 Mehefin 2018 am 9.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P K Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | L S Gibbard | P R Hood-Williams |
| Y V Jardine | J W Jones | I E Mann |
| S Pritchard | W G Thomas | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|

**Mynychwyr eraill**

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Deb Hill | |
| Bethan Hopkins | Scrutiny Officer |
| Paul Meller | Strategic Planning and Natural Environment Manager |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): H M Morris
Aelodau Cyfetholedig(wyr):
Mynychwyr eraill:

---

1 **Ymddiheuriadau**

2 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

- Dim

3 **Cofnodion**

- Gohiriwyd tan y cyfarfod nesaf

4 **Cylch gorchwyl.**

5 **Yr Amgylchedd Naturiol - Trafodaeth bord gron**

- Cyflwynodd y Cynullydd, Peter Jones, gylch gorchwyl a nodau'r ymchwiliad

- Mae dau ddarn o ddeddfwriaeth newydd yn ysgogi'r angen am yr ymchwiliad
- Y dymuniad i weld bioamrywiaeth fel rhywbeth annatod ym mhob penderfyniad gan Gyngor Abertawe sy'n berthnasol
- Diben y sesiwn yw tynnu sylw at broblemau a datrysiadau
- **<u>Colin Cheesman - Plantlife</u>**
- Mae gwirfoddolwyr yn rhan bwysig iawn o'r maes gwaith hwn
- Mae Abertawe'n amrywiol iawn ac yn bwysig iawn ar gyfer bywyd planhigion
- Drwy weithio mewn partneriaeth gallwn lwyddo a goresgyn rhai rhwystrau
- Mae angen i bobl ddeall bioamrywiaeth a sut mae'n bwysig iddynt
- Mae monitro'n bwysig iawn fel y gallwn ddeall y sefyllfa a'r tueddiadau
- **<u>Kerry Rogers - Cyfoeth Naturiol Cymru</u>**
- Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gylch gwaith enfawr
- Mae'n cynnwys yr holl safleoedd a warchodir. Mae 35 o safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn Abertawe, 6 Ardal Cadwraeth Arbennig, 2 Ardal Gwarchodaeth Arbennig, 2 wlyptir o bwys rhyngwladol (Ramsar) ac un ardal cadwraeth arbennig bosib.
- Mae llai o bori yn Fairwood a phob tir comin yn Abertawe
- Mae ansawdd aer yn gysylltiedig â rhwydweithiau cludiant
- Mae partneriaethau'n bwysig iawn (e.e. y Gwasanaeth Tân, Asiantaethau Dŵr, cyrff trydydd sector etc)
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n rhyngweithio â sawl adran yng Nghyngor Abertawe - mae awydd i gyfuno hyn yn llawer mwy aml
- Mae mantais o ran cost yn deillio o weithio ar y cyd e.e. prosiect dal twyni tywod, sy'n golygu nad oedd angen i'r priffyrdd eu clirio o hyd
- Mae rheoli llwybr yr arfordir yn annog bioamrywiaeth a thwristiaeth
- Mae blodau gwyllt yn bwysig (e.e. ar gyfer peillwyr a chynnwys y cyhoedd) ond mae angen eu clustnodi'n ofalus
- Dylai'r camau gweithredu ystyried yr effaith ar fioamrywiaeth
- Mae Abertawe'n ddinas werdd iawn â llawer o werth fel adnodd naturiol
- **<u>Adam Rowe - Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWBREC)</u>**
- Rôl SEWBREC yw arsylwi ar rywogaethau, eu nodi a chadw cofnodion
- Mae'r ganolfan hefyd yn trefnu digwyddiadau hyfforddi
- Mae llawer o'r dystiolaeth yn cael ei chasglu gan wirfoddolwyr a hyfforddwyd yn arbennig
- Oherwydd bod cynifer o rywogaethau pwysig yn Abertawe, nid oes modd cynnal prosiect heb effeithio ar rywogaeth bwysig
- Nid yw gweithio ar wahân yn opsiwn
- Mae safle Aderyn yn caniatáu i bobl gael mynediad at yr wybodaeth hon
- Roedd Cyngor Abertawe heb gael mynediad at wybodaeth SEWBREC rhwng 2004-2017
- Gellir defnyddio SEWBREC i greu parthau clustogi o amgylch safleoedd ac i gynnal archwiliad llawn - ar gyfer rhywogaethau hefyd
- Anfonir gwybodaeth drwy restrau cynllunio i swyddogion sy'n cynnwys rhywogaethau pwysig
- Mae cael mynediad yn hanfodol a bydd yn costio £8,000 i £10,000 y flwyddyn

- **Heather Galliford a Chris O'Brien - Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)**
- Mae telor Dartford yn arbennig iawn
- Mae'r amrywiaeth biolegol yn fyd-eang ac yn bwysig iawn
- Mae'r Cynllun Adfer Natur (Dogfen Bolisi) yn cael ei adleisio drwy sefydliadau heddiw
- Mae'n bwysig bod Cyngor Abertawe'n rheoli'n effeithiol
- Hoffai'r RSPB weld Abertawe'n arwain y ffordd wrth wreiddio'r ddogfen bolisi hon
- Nid yw Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Datganiad Lles Lleol yn cyfateb i'w gilydd
- Mae Adran 6 Deddf yr Amgylchedd 2016 yn gofyn am adrodd am gynnydd a'r camau gweithredu cyn diwedd 2019 - a fydd Cyngor Abertawe'n barod am hyn?
- Mae angen i ystadau, parciau, cynllunio ac adfywio fod yn gyson o ran bioamrywiaeth a chadwraeth natur
- **Nigel Ajax-Lewis - Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru**
- Mae Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru yn rheoli tir, yn rhoi gwybod i bobl am eu gwaith a'u cynnydd ac yn cynyddu ymwybyddiaeth
- Mae rhai pryderon mewn perthynas ag afonydd yn Abertawe
- Mae rhai o weithgareddau'r cyngor yn anghyson ac mae angen ymagwedd fwy cydlynol at yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth
- **Steve Volchover - Partneriaeth Bioamrywiaeth Abertawe a Chadeirydd Canolfan yr Amgylchedd Abertawe**
- Mae'r amgylchedd naturiol yn bwysig i bobl
- Mae lleoedd megis Moryd Llwchwr ac Oxwich yn ddwy enghraifft o safleoedd pwysig
- Mae rhan fawr o Abertawe'n cwmpasu safleoedd pwysig ar gyfer pryfed
- Nid yw Abertawe'n dda iawn o ran cynnal bioamrywiaeth
- Mae'n bwysig gwarchod safleoedd er mwyn annog cysylltedd
- Mae'r cyngor yn defnyddio cymysgeddau o hadau estron ar gyfer blodau gwyllt pan ddylid defnyddio rhai brodorol er lles y gwenyn a'r pryfed
- Byddwch yn wyliadwrus o ddefnyddio chwynladdwyr cyn plannu blodau newydd
- Mae rhai planhigion sy'n tyfu'n wyllt ac yn tarfu ar fflora a ffawna brodorol - mae angen rheoli hyn
- Mae tipio anghyfreithlon a sbwriel yn achosi problemau drwy ymddygiad, arfer a pholisïau
- Efallai fod biniau olwynion yn ddatrysiad gwell am eu bod yn lleihau sbwriel ar ochr y ffordd a'r defnydd o fagiau plastig
- Mae angen i bobl ddefnyddio deunyddiau addas wrth eu llosgi mewn stofiau llosgi pren domestig ac osgoi casglu pren marw fel tanwydd, am fod hyn yn gynefin pwysig i bryfed
- Mae angen bod yn wydn mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd a thywydd cynhesach a gwlypach. Mae angen rhoi darpariaethau ar waith ar gyfer problemau llifogydd posib
- **Chris Dow - Ysgol Goedwig Abertawe Castell-nedd Port Talbot**

- Nid oes gan yr ysgolion unrhyw arian i ganolbwyntio ar addysg amgylcheddol a gwneud pobl ifanc yn hyrwyddwyr amgylcheddol hyd yn oed os ydynt am wneud hynny
- Mae llawer o sefydliadau gwirfoddol yn methu oherwydd colli arian grant
- Nid yw'n hawdd i sefydliadau wneud arian o'r maes gwaith hwn
- Mae angen bod yn gynaliadwy
- **<u>Trafodaeth</u>**
- Mae rhai gweithgareddau heb eu rheoleiddio ar yr arfordir megis casglu abwyd a broc môr at ddefnydd masnachol
- Mae llawer o rywogaethau morol ymledol a sbwriel sy'n cael effaith negyddol
- Mae'n anodd newid diwylliant ac ymddygiad pobl
- Mae proses y mae angen ei dilyn mewn perthynas â cheisiadau cynllunio ac adroddiadau ecoleg
- Mae cynghorau eraill megis Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Mynwy'n cynnal gweithgareddau i wella eu hisadeiledd gwyrdd neu i flaenoriaethu/godi proffil gwaith bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol
- Dylai pob adran y cyngor wreiddio bioamrywiaeth a rhannu baich y gwaith
- Yr enghreifftiau gorau o ariannu yw pan fo'r gyllideb yn dod o bob adran y cyngor sy'n effeithio ar yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth neu'n elwa ohonynt
- Mae twristiaeth yn elwa'n sylweddol o gyflwr yr amgylchedd naturiol ac mae hyn yn lle amlwg i wneud arian
- Mae cost-effeithiolrwydd hyfforddi plant am bwysigrwydd yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth a sut i ofalu amdanynt yn amhrisiadwy ond mae'n anodd ei fesur
- Gall cynghorau wneud pethau'n waeth drwy beidio â sicrhau bod adrannau'n gweithio ar y cyd ar yr un pryd
- Ar gyfer rhai pobl/adrannau, mae gan fioamrywiaeth werth negyddol am ei fod yn gallu atal gwaith rhag cael ei wneud/neu arafu gwaith
- Gellir rheoli perygl llifogydd yn fwy effeithiol ac yn rhatach drwy ddefnyddio dulliau naturiol
- Bydd y cymysgedd o wasanaethau sy'n bwydo'r gwaith hwn yn rhyddhau mwy o gyllid wrth fynd ymlaen a bydd hyn yn arwain at ddyheadau uwch megis cyllid ychwanegol ar gyfer addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol
- Mae hefyd fanteision iechyd enfawr yn deillio o gael amgylchfyd naturiol ac mae'r GIG yn dechrau ei ddefnyddio fel rhan o'i driniaethau
- Mae rhai o'n rhywogaethau'n ddigon pwysig fel eu bod yn haeddu cyllid ar gyfer gwaith cynnal a chadw a chadwraeth
- **<u>Awgrymiadau gan sefydliadau ar gyfer Cyngor Abertawe</u>**

    1. Ymrwymo i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth â SEWBREC er mwyn cael mynediad at ddata mapio/rhywogaethau pwysig ar gyfer prosiectau
    2. Glynu wrth y polisïau presennol
    3. Gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni prosiectau, bydd hyn yn lleihau costau ac yn annog arbenigedd
    4. Gwella cyfathrebu o fewn adrannau a herio'r sawl (gan gynnwys sefydliadau allanol) nad ydynt yn gwneud yr hyn y dylent fod yn ei wneud

5. Datblygu cysylltiadau â'r staff cywir ac ymgynghori ar yr adeg iawn
6. Peidio ag anwybyddu Dyffryn Lliw Isaf. Rhaid cynnal a gwella bioamrywiaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn unol â'r Ddeddf
7. Bod yn gyfrifol am ddatblygu cynlluniau a chael adrannau i weithio gyda'i gilydd yn hytrach nag yn erbyn ei gilydd
8. Angen i'r uwch-reolwyr fod yn rhan o hyn ac mae angen cymryd hyn o ddifri ar y lefel uchaf
9. Gwerthfawrogi gwirfoddolwyr a chydlynwyr gwirfoddol - angen rhoi arian ac ymdrech wrth wneud hyn

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 pm

**Cadeirydd**